# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION - MEHEFIN 2016

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 15 Mehefin 2016 |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | **Ysgol Rhosgadfan** |

| | |
|---|---|
| a) | **Croeso**<br>Yn bresennol roedd Michelle Williams, Nerys Evans, Les Williams, Gwilym Ll Williams, Tom Ellis, Caryl Lewis (Clerc), Rhys Owen, Jason Hunt. Cadeirwyd y cyfarfod gan Nerys Evans yr Is-Gadeirydd gan yr oedd Rhys Owen yn rhedeg yn hwyr. |
| b) | **Ymddiheuriadau**<br>Aeron M Jones, Elwyn Jones, Elin Evans, Gwilym V Thomas,<br><br>Nid oedd Neil Williams yn bresennol. |
| c) | **Datgan Buddiant**<br><br>Dim i'w nodi |
| d) | **Cadarnhau cofnodion 18 Mai 2016**<br><br>Derbyniwyd fel cofnod cywir. |
| e) | **Materion i'w trafod:**<br><br>**a) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos**<br>Cofnod wedi ei dderbyn gan OP Huws, angen edrych ar gydweithio ac arbed arian. Aelodau yn hapus gyda'r cynnig i sefydlu corff i drafod hyn ymhellach. Cytunwyd fod angen cydweithio a fydd raid ystyried y cynnigion a thrafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**b) EJ – Lein Bryngwyn**<br>Gohirio trafod nes y bydd EJ yn bresennol.<br><br>**c) NE – Torri gwair y fynwent**<br>Nodwyd fod problemau wedi bod gyda'r gwair ddim yn cael ei orffen a'r fynwent yn edrych yn fler. Clerc yn nodi ei fod wedi cysylltu gyda'r contractwr a mae wedi bod yno i orffen y gwair. Bydd y clerc yn monitro'r sefyllfa.<br><br>**d) NE – Bedd angen ei glirio yn y fynwent**<br>Clerc yn nodi ei bod yn cael trafferth darganfod manylion y person cyswllt ar gyfer y bedd. Derbyniwyd cynnig y clerc, sef ei bod yn mynd yn ol at yr ymgymerwyr a gofyn iddynt am fanylion cyswllt y teulu. Mae'r bedd angen ei glirio gan mai dyna'r rheolau ac mae peryg y gallai osod cynsail i eraill.<br><br>**e) GLLW – Bryn Glas, Rhos Isaf – coed yn hongian drosodd i'r lon.**<br>Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn nodi y byddent yn gyrru archwilwyr allan i edrych ar y safle ac wedyn yn cysylltu gyda'r tirfeddianwr i'w hysbysu o unrhyw waith sydd angen ei wneud.<br><br>**f) MW – Pasio i lawr am Jericho, ceir yn parcio ar y palmant, plant methu pasio pan yn ceisio cerdded lawr at y cae chwarae.**<br>Clerc wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd yn nodi eu bod am roi llinellau melyn ar y safle ond mae angen mynd drwy broses cyfreithiol. Unwaith y bydd |

| | |
|---|---|
| | llinnellau melyn wedi eu gosod fydd yn haws cymryd camau gorfodaeth.<br><br>g) **Cod Ymddygiad** – Daeth gorchymyn i rym ar 1/4/16 sy'n diwygio rhai agweddau o'r Cod Ymddygiad i aelodau. Fel canlyniad, rhaid i bob cyngor ddiwygio ei god ymddygiad i adlewyrchu'r newidiadau hyn.<br>Cyflwynodd y Clerc y newidiadau i'r Cod Ymddygiad i Aelodau a derbyniwyd y Cod newydd yn ystod y cyfarfod. Hefyd, o dan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol i i bob cyngor gyhoeddi rhybudd mewn papur newydd yn datgan ei fod wedi diwygio ei god, a bod copi ar gael i'r cyhoedd i'w weld. Cytunwyd i'r Clerc ofyn i'r hysbyseb gael ei gynnwys gydag un Cyngor Gwynedd er mwyn arbed costau. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>**Mynwent Cefnfaes**<br>**- Tap Dwr**<br>Clerc yn nodi fod y tap bellach wedi ei sortio ac yn gweithio'n dda.<br>**- Bin**<br>Clerc yn nodi ei bod wedi bod mewn cyswllt gyda Cyngor Gwynedd yn holi am bris. Mae gwastraff y fynwent yn dod o dan 'gwastraff masnachol'. £8 y tro fydd gost ar gyfer gwagio, felly os yn gwagio bob pythefnos y gost bydd £208 y flwyddyn. Cytunodd Aelodau i dalu hyn. Clerc i drefnu gyda'r Cyngor. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i'w nodi |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>a) Adroddiad Ariannol<br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 14 Mehefin 2016</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **19,232.61**<br>- Transfer i Cyfrif Siec 3,000.00<br>+ Llog 1.95<br>**Balans ar derfyn busnes 14 Meh 2016 16,234.56**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **1,564.11**<br>+ Transfer o Cyfrif Cadw 3,000.00<br>+ Claddiad 100.00<br>- 101361 JD Roberts 65.00<br>- 101345 Treialon Cwn Defaid Llanllyfni 50.00<br>- 101359 Cyllid y Wlad 99.00<br>- 101364 Cyflog Clerc 438.51<br>- 101365 Cyllid y Wlad 99.00<br>**Balans ar derfyn busnes 14 Meh 2016: 3,912.60**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 15 Mehefin 2016:</u>**<br><br>Cyflog Clerc Mehefin, Gorff & Awst 1,315.53<br>Cyllid y Wlad Mehefin, Gorff & Awst 297.00<br>Kenyon Parry 617.89<br>A.Hughes Jones & Dyson 168.00<br>Zurich 249.91<br>Wyn Williams 547.50<br>Sion Owen 660.00<br>**Cyfanswm 3,855.83** |

| | |
|---|---|
| | Cytunodd Aelodau i wneud y taliadau a nodwyd yn yr adroddiad ariannol. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Cais C15/1337/24/LL, Gwenallt, Dinas – Dim gwrthwynebiad ar y cyfan ond wedi datgan pryderon am barcio eisioes, angen sicrhau nad ydy hyn am arwain at broblemau pellach.<br><br>Tir gyferbyn a Tai Penrallt, Saron (Cais i adeiladu ty newydd) – Wedi mynd i apel ac yn cael ei ystyried gan Llywodraeth Cymru. Cyngor Cymuned eisioes wedi nodi nad ydynt yn erbyn codi 1 ty ond yn sicr nid ydynt yn croesawu mwy nag hynny. Angen ategu hyn. |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronnau**<br>**a. Grwp Cyswllt Moel Tryfan** – Copi draft or cyfansoddiad wedi ei rannu. Cytuno fod angen cynrychiolaeth yno ond ddim rheidrwydd ir person yna fynd bob tro nes bod ni wedi trafod yn cyfarfod mis medi.<br>**b. Cyngor Gwynedd – Holiadur Glendid Stryd wedi ei dderbyn**. Nodwyd mai cytuno fyddai ymateb y Cyngor Cymuned i bob cwestiwn ond mae angen bod yn realistig. Ydy Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i allu roi diryw gan ysyried y sefyllfa ariannol. Rydym eisioes wedi cwyno am y cynnydd mewn baw ci a sbwriel.<br>**c. Cyngor Gwynedd** – Nododd y Clerc fod gwahoddiad i'r Cyngor Cymuned gynnwys rhybydd o'r newid i'r cod ymddygiad yn yr un hysbyseb a Cyngor Gwynedd. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>**LW –** Ger Neuadd Rhosgadfan, mae plant yn dod a cerrig i'r lon, cerrig yn rhydd yn y cae a plant yn gosod nhw ar y lon. Angen cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i adnabod pwy sydd berchen y wal.<br><br>**NE –** Rhwng Bryn Melyn a Bryn Coch, Rhos Isaf, mae brigyn wedi torri ac yn hongian drosodd i'r lon, angen holi cyngor Gwynedd gan y gallai ddisgyn i'r lon.<br><br>Nododd yr Aelodau yr hoffent ddymuno yn dda ir clerc ar ei chyfnod mamolaeth ac i'r Cadeirydd Rhys Owen ar achlysur ei briodas i Elliw.<br><br>**Dyddiad: 21 Medi 2016**<br>**Lleoliad: Ysgol Rhostryfan** |